# Ymgorffori effeithiau gweledol a graffeg mewn deunydd byw

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chyfuno graffeg a VFX (effeithiau gweledol) gyda deunydd byw yn y modd a ragwelir gan y cleient a'r dylunwyr graffeg a VFX.  Rhaid i'r gwaith fod yn gyson â gofynion ansawdd a fformat y cynnyrch.

Gallai'r Safon hon fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n gysylltiedig ag ymgorffori cyfryngau mewn deunydd byw.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwirio bod deunydd byw yn cael ei saethu mewn ffyrdd sy'n galluogi ychwanegu effeithiau a graffeg
2. cael deunydd gweledol i'w ddefnyddio o ffynonellau dibynadwy
3. gwirio bod modd ymgorffori effeithiau a sgriptiwyd o fewn yr amser a'r gyllideb
4. ymgorffori deunydd sy'n cyd-fynd â gofynion cleientiaid ar gyfer y deunydd byw mae wedi'i fwriadu ar ei gyfer
5. gwneud penderfyniadau critigol am ansawdd sain a gweledol, graffeg, effeithiau gweledol a thestun erbyn safonau artistig a thechnegol
6. awgrymu newidiadau sy'n gwneud eich gwaith yn fwy hyfyw yn dechnegol neu'n fasnachol
7. sicrhau bod gwaith artistiaid gwahanol yn cyfuno i greu'r effaith, y dôn a'r naws y mae cleientiaid yn dymuno'u cyflawni
8. gwirio bod gan y deunydd rydych yn ei ymgorffori rinweddau technegol sy'n gydnaws â'r deunydd byw yr ydych yn gweithio gydag ef
9. ymgorffori deunydd yn yr amserlen ofynnol
10. ymgorffori deunydd sy'n gydnaws â'r llwyfannau dosbarthu bwriadedig yn y cyfryngau a llwyfannau gwylio
11. cynnal diogelwch ar gyfer ffeiliau a deunyddiau eraill yn unol â gofynion y cwmni

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y naws a'r teimlad a fwriedir gan gleientiaid
2. sut i ddehongli gofynion technegol a fformat ar gyfer prif gopïau a gynhyrchir
3. ffynonellau gwybodaeth am ddeunydd gweledol i'w ddefnyddio a sut i'w cyrchu
4. fformatau ffeil ar gyfer graffeg a VFX a'u cydnawsedd â fformatau ffilmio byw
5. safonau gwylio presennol a safonau proffesiynol, cenedlaethol a rhyngwladol presennol o ran darparu a datganiadau o arfer gorau ar gyfer yr ystod o lwyfannau a chynnwys
6. ffilmio sy'n galluogi ychwanegu effeithiau gweledol
7. creu platiau
8. sut i asesu ansawdd fideo yn ôl safonau artistig a thechnegol disgwyliedig
9. lle graffeg a VFX yn y llif gwaith ôl-gynhyrchu
10. gweithrediad offer ar gyfer ymgorffori graffeg a VFX
11. asesiad critigol o elfennau graffigol
12. dulliau derbyniol ac annerbyniol o gwtogi gwaith
13. systemau'r cwmni ar gyfer storio, arbed copïau wrth gefn a diogelwch

Ymgorffori effeithiau gweledol a graffeg mewn deunydd byw

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative Skillset |
| **RCU gwreiddiol** | SKSPP12 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Ôl-gynhyrchu |
| **Geiriau Allweddol** | Ôl-gynhyrchu, Cynhyrchu, Ffilm, Theledu, Gweledol, VFX |